**Staff swyddfa Neil Hamilton**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

19 Medi 2019

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 23 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Cynulliad Cymru*

*Hoffwn gadarnhau a yw Mr Christopher Harries erioed wedi'i gyflogi gan Mr Neil Hamilton AC.*

*Cofion cynnes,*

Gweler yr ymateb isod.

Nid ydym yn cadarnhau nac yn gwadu ein bod yn cadw gwybodaeth sy'n dod o fewn y disgrifiad a nodwyd yn eich cais. Nid yw'r ddyletswydd yn adran 1(1)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gymwys, yn rhinwedd adran 40(5B)(a)(i) o'r Ddeddf honno. Ni ddylid cymryd hyn fel arwydd fod gennym y wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani neu beidio.

Yn unol ag adran 40(5B)(a)(i), byddai cadarnau neu wadu ein bod yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn groes, yn ein barn ni, i'r egwyddor gyntaf ynghylch diogelu data fel y'i nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae'r egwyddor gyntaf ynghylch diogelu data yn nodi:

"Caiff data personol eu prosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw mewn perthynas â gwrthrych y data ('cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder')".

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae’r eithriad o’r ddyletswydd i gadarnhau neu wadu yn absoliwt mewn achosion lle byddai gwneud hynny’n mynd yn groes i un o’r egwyddorion diogelu data. Felly, nid yw’n ofynnol i ni gynnal prawf budd y cyhoedd o dan yr amgylchiadau hyn.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF